# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 14 Mehefin 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys

2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Ar ba ddyddiad yr hysbysodd y Prif Weinidog Ysgrifennydd Gwladol blaenorol Cymru y tro cyntaf mai Hydref 2010 fyddai hoff ddyddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cynnal refferendwm ar gam 4 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. (WAQ56070)

***Rhoddwyd ateb ar 22 Mehefin 2010***

Fe'ch cyfeiriaf at fy atebion i WAQ 56045 a WAQ 56046. Hysbyswyd yr Ysgrifennydd Gwladol blaenorol am benderfyniad y Cynulliad ym mis Chwefror 2010.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Brian Gibbons (Aberafan):** Yn dilyn ei atebion i WAQ56018 a WAQ56019, a wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o'r swyddi a grëwyd/gefnogwyd a fanylwyd yn ei ateb i WAQ56018, wedi'i ddadansoddi yn ôl pob un o'r penawdau a fanylwyd yn ei ateb i WAQ56019, gan roi'r ffigurau ar gyfer y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf. (WAQ56069)

***Rhoddwyd ateb ar 22 Mehefin 2010***

Mae tabl sy'n amlinellu'r wybodaeth wedi'i atodi.

**BWRDD CYNGHOROL DATBLYGU DIWYDIANNOL CYMRU**

**Blwyddyn Ariannol 2008-09**

| | **Swyddi Newydd** | **Swyddi a Ddiogelwyd** |
|---|---|---|
| Cwmnïau yng Nghymru | 122 | 258 |
| Cwmnïau yn y DU nad ydynt yng Nghymru | 176 | 0 |
| Cwmnïau nad ydynt yn y DU | 3007 | 2748 |
| Cyfanswm | **3305** | **3006** |

**Blwyddyn Ariannol 2009-10**

| | **Swyddi Newydd** | **Swyddi a Ddiogelwyd** |
|---|---|---|
| Cwmnïau yng Nghymru | 30 | 236 |
| Cwmnïau yn y DU nad ydynt yng Nghymru | 474 | 30 |
| Cwmnïau nad ydynt yn y DU | 1701 | 863 |
| **Cyfanswm** | **2205** | **1129** |

Noder mai rhagamcan o nifer y swyddi ar adeg y cynnig yw'r rhain. Nid yw rhai cwmnïau yn derbyn eu cynnig nac yn creu na diogelu'r nifer o swyddi a ragamcanwyd am nifer o resymau (lle bo'n hynny'n digwydd, caiff swm y cymorth a delir ei leihau'n briodol).

**Mike German (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd ynghylch cynigion mynediad i Gyffordd Twnnel Hafren ar gyfer darpar Barcffordd Gwent ac a fyddai'n amlinellu'r dewisiadau mynediad llwybrau amrywiol sy'n cael eu hystyried. (WAQ56072)

***Rhoddwyd ateb ar 28 Mehefin 2010***

Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda Sewta i ymchwilio i welliannau parcio a mynediad yn ogystal ag ystyried cyswllt o'r M4 ger Man Casglu Tollau Ail Bont Hafren fel rhan o astudiaeth i gynllun parcio a theithio strategol i leihau traffig ar yr M4.